

**COFNODION CYFARFOD O'R PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD
A GYNHALIWDYD YN YSTAFELL GYFARFOD 1, NEUADD Y DREF AR DYDD IAU,
5 GORFFENNAF 2018**

AELODAU

Y Cynghorydd M C King OBE, Cadeirydd
Y Cynghorydd Rondo Roberts, Is-Gadeirydd

Y Cynghorydd	Bryan Apsley	Y Cynghorydd	John McCusker
"	William Baldwin	"	Beverley Parry-Jones
"	Mike Davies	"	* Paul Rogers
"	* Michael Dixon	"	* Barrie Warburton
	T Alan Edwards		* Derek Wright
	Carrie Harper		

*Yn absennol

Hefyd yn bresennol – Y Cynghorwyr Dana Davies.

27 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb ar ran y Cynghorwyr Michael Dixon, Paul Rogers, Barrie Warburton a Derek Wright.

28 CADARNHAU COFNODION

CYTUNWYD – Cytunwyd bod Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Mawrth 2018 yn gofnod cywir.

29 DIWEDDARIAD AR DDATBLYGU AELODAU

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd adroddiad (HCCS/46/18) yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau ynglŷn â datblygiad aelodau rhwng 1 Ebrill 2018 a 30 Mehefin 2018 ac yn rhoi cyfle iddynt ystyried anghenion hyfforddiant a datblygu ychwanegol.

Cyflwynodd Arweinydd Datblygu'r Gweithlu yr adroddiad ac ymatebodd i gwestiynau'r Aelodau yn unol â hynny. Gwahoddodd yr Aelodau i roi gwybod iddi am unrhyw anghenion hyfforddiant i'r dyfodol.

Mewn ymateb i bryderon a godwyd gan Aelodau ynglŷn â chanslo rhai modiwlau hyfforddiant oherwydd yr argraff bod diffyg diddordeb, rhoddodd Arweinydd Datblygu'r Gweithlu wybod bod y drefn weinyddol wrthi'n cael ei hadolygu. Cadarnhaodd os oedd galw am hyfforddiant y dylai gael ei gynnal.

Cydnabuwyd bod cynnal digwyddiadau hyfforddi yn ystod y dydd ac eto gyda'r nos yn fanteisiol.

Atgoffodd Arweinydd Datblygu'r Gweithlu y Pwyllgor bod ganddynt y dewis o

ailymgeisio am statws Siarter. Roedd yr Aelodau yn teimlo y byddai hyn o fantais, yn enwedig gan fod rhan o'r meini prawf ar gyfer cyflawni'r Siarter yn cyfeirio at ansawdd yr hyfforddiant a ddarperir.

CYTUNWYD:

- (i) Nodi'r adroddiad;**
- (ii) Dylai Arweinydd Datblygu'r Gweithlu roi'r meini prawf ar gyfer cael statws Siarter i Aelodau'r Pwyllgor a gofyn am adborth ynglŷn ag a ydynt yn dymuno ailymgeisio am statws Siarter. Rhoddir adborth i gyfarfod mis Tachwedd 2018.**

30

GWE-DDARLLEDU CYFARFODYDD Y CYNGOR

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd adroddiad (HCCS/41/18) yn caniatáu i'r Pwyllgor ystyried ymarferoldeb a goblygiadau gweddarlledu holl gyfarfodydd y Cyngor.

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yr adroddiad, sy'n cyfeirio yn benodol at y pedwar dewis sydd ar gael, gan roi gwybod y byddai Dewis 2 yn caniatáu gweddarlledu mwy o gyfarfodydd Pwyllgor Craffu.

Wrth drafod yr adroddiad, nodwyd y materion canlynol, yn benodol:

- Roedd nifer o'r Aelodau yn teimlo nad oedd cyfleuster archif 6/12 mis yn ddigonol a dylid ei gynyddu i gyfnod hirach.
- Er bod yr Aelodau yn cydnabod bod gan y Cyngor reolaeth dros y gweddarlledu, gofynnwyd am eglurhad ynglŷn ag ai'r Cyngor sydd yn berchen ar y fideo/â hawlfraint.
- Awgrymodd un Aelod y dylid gweddarlledu pob cyfarfod er mwyn dal Aelodau i gyfrif. Os nad oedd yn bosibl archifo am gyfnod hirach na 12 mis, awgrymwyd y dylid sicrhau bod trawsgrifiad o'r cyfarfodydd ar gael.
- Mae angen ystyried dewisiadau eraill y tu hwnt i Public i ar gyfer gweddarlledu, gan gynnwys cyfleuster mewnol neu YouTube.
- Ystyried caffael yn rhanbarthol
- Mynegodd rhai Aelodau bryder bod y Cyngor ond yn prydlesu'r offer gweddarlledu gan Public i. Roeddent yn deall y byddai'r cyllid cychwynnol gan Lywodraeth Cymru yn cael ei ddefnyddio i brynu'r offer.

CYTUNWYD:

- (i) Sefydlu Grŵp Tasg a Gorffen i ystyried y materion a godwyd mewn mwy o fanylder.**
- (ii) Cynnal cyfarfod o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn fuan ym mis Medi 2018, i ystyried pa opsiwn y dylid ei gyflwyno i'r Cyngor.**
- (iii) Rhoi'r wybodaeth a ganlyn i Aelodau'r Pwyllgor:**
 - (a) Esboniad ynglŷn ag a all Aelodau wyllo recordiadau gweddarlledu wedi'u harchifo ac os felly, cadarnhad o'r drefn.**
 - (b) Cadarnhad ynglŷn â phwy oedd berchen ar hawlfraint y**

gweddarlledu a, phe bai'r Cyngor yn gadael y cytundeb gyda public i, a fyddent yn cadw'r archifau gweddarlledu.

31 RHAGLEN WAITH GYNLLUNIEDIG

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd adroddiad (HCCS/45/18) i alluogi ystyried eitemau i'w cynnwys yn y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol ar gyfer y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn ddinesig bresennol.

CYTUNWYD – Cymeradwyo'r Rhaglen Cyfarfodydd a'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol fel y nodwyd yn adroddiad HCCS/45/18.

32 UNRHYW EITEMAU ERAILL Y MAE'R CADEIRYDD YN PENDERFYNU EU BOD YN RHAI BRYS

Adroddiadau Blynyddol

Atgoffodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yr Aelodau bod gwahoddiad iddynt gyflwyno eu Hadroddiadau Blynyddol erbyn diwedd mis Gorffennaf 2018 i'w cyhoeddi ar y gwefannau Cymraeg a Saesneg ym mis Medi 2018.

Mynediad o Bell i Gyfarfodydd

Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau bod y Cyngor wedi ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn flaenorol ynglŷn â mynediad o bell i gyfarfodydd, a sut y byddai hyn yn effeithio ar gyfrinachedd. Cytunwyd y byddai'r Cadeirydd, ar ran y Pwyllgor, yn dilyn ymlaen ar yr ymholiad hwn.

Y Cyngorydd M C King OBE
Cadeirydd